**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan MS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

29 Mai 2025

## Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin

Annwyl Eluned,

Diolch am eich ymateb i'n llythyr dyddiedig 23 Ebrill 2025 ynghylch Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 21 Mai 2025.

Er ein bod yn ddiolchgar am eich ymateb, hoffem ailadrodd rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd gennym, gan ein bod yn awyddus i gael y wybodaeth hon yn llawn. Rydym o’r farn nad oes digon o fanylion yn yr ymateb a gawsom, yn benodol ynghylch sut y bydd y cytundeb yn cael ei weithredu yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw adnoddau a fydd yn cael eu dyrannu i hwyluso’r broses hon, ac yn wir manylion ynghylch rôl Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru wrth ei gyflawni. Gofynnwn i chi ailystyried ein cais am y wybodaeth a ganlyn:

- pa rôl y gallai fod gan Lywodraeth Cymru wrth gyflawni'r bartneriaeth, yn enwedig mewn meysydd datganoledig, fel y nod o greu 100 o bartneriaethau rhwng ysgolion i feithrin cyfnewid diwylliannol;
- beth fydd y broses o weithredu'r cytundeb yng Nghymru, gan gynnwys cyfranogiad sefydliadau Cymru a phartneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru;
- barn Llywodraeth Cymru ar y cyfleoedd a manteision a ddaw i Gymru yn sgil y cytundeb; ac
- a oes trafodaethau rhynglywodraethol ledled y DU yn digwydd yn rheolaidd i gydlynu’r gwaith o gyflwyno'r trefniadau newydd.

Arweiniodd ein trafodaethau ar eich ymateb yn ein cyfarfod ar 21 Mai at ambell gwestiwn ychwanegol, felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi hefyd:

- pa adnoddau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyrannu ar gyfer cyflawni'r bartneriaeth;
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydliadau a phartneriaid yng Nghymru i weithredu'r cytundeb partneriaeth;
- cadarnhad o ba adrannau yn Llywodraeth y DU y mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â nhw mewn perthynas â'r cytundeb partneriaeth, fel yr awgrymwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn y Cyfarfod Llawn ac yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r cytundeb; a'r
- berthynas rhwng y cytundeb partneriaeth a'r trefniadau a'r gweithgarwch presennol rhwng Cymru ac Wcráin sydd y tu allan i'w gwmpas, er enghraifft gefeillio trefi ac ysgolion.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 11 Mehefin, cyn eich sesiwn dystiolaeth Weinidogol gyda'r Pwyllgor ar 18 Mehefin.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament